# Adroddiad Arolygu

**Clwb Ar ôl yr Ysgol Caereinion**

**Ysgol Gynradd Llanfair Caereinion**
**Pool Road, Llanfair Caereinion**
**Y Trallwng**
**SY21 0SF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

18/5/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored.Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chlwb ar ôl yr Ysgol Caereinion

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal y tu allan i oriau ysgol |
| Unigolyn cofrestredig | Rowena Huxley |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Mewnosod â llaw<br>Ôl-gofrestriad |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Mewnosod â llaw<br>Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae hwn yn wasanaeth sy'n gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol'. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn hyderus ac yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau priodol ynglŷn â sut maent yn treulio eu hamser. Maent yn mwynhau mynychu'r lleoliad, sy'n eu helpu i ymlacio ac ymgartrefu'n dda. Mae rhyngweithiadau'r plant yn dda, ac maent yn dysgu parch a sut i gydweithredu â'i gilydd. Mae'r plant yn cael ystod o gyfleoedd priodol sy'n eu galluogi i ddilyn eu diddordebau a datblygu ystod o sgiliau.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn hyrwyddo ffordd iach o fyw yn gyffredinol. Maent yn rhyngweithio'n dda gyda'r plant. Maent yn fodelau rôl da, sy'n eu cefnogi i ryngweithio'n dda a bod yn gwrtais. Mae'r staff yn cynnwys y plant yn dda wrth gynllunio gweithgareddau addas a chyfleoedd chwarae y maent yn eu mwynhau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau ei fod yn ddiogel ac mae'r newidiadau a roddwyd ar waith wedi sicrhau ei fod yn ddiogel. Mae'r amgylchedd yn addas i blant ac mae llawer o fannau gwahanol i blant eu defnyddio ar gyfer chwarae a dysgu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ei reoli'n dda ac yn sicrhau bod yr holl waith papur yn cael ei gwblhau a'i adolygu'n rheolaidd. Mae gwaith hunanwerthuso wedi'i wreiddio mewn arferion ac mae'n cael ei gwblhau'n effeithiol. Mae'r staff yn cael eu rheoli'n dda, a datblygir cydberthnasau da â'r rhieni a'r ysgol.

## Llesiant Da

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus. Maent yn mynegi eu hunain a'u hanghenion yn dda, gan wybod y bydd y staff yn gwrando arnynt ac yn ymateb yn briodol a chyda diddordeb. Mae’r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau ynghylch ble maent yn chwarae a'r hyn y maent am ei wneud. Er enghraifft, ar ôl byrbryd, roedd plentyn yn chwarae gyda chardiau ac nid oedd am fynd i'r neuadd. Gadawodd y staff iddo aros yn yr ystafell lle mae’r plant yn cael byrbryd nes ei fod yn barod i ymuno â'r lleill. Darperir amrywiaeth o eitemau bwyd i’r plant ddewis ohonynt yn ystod amser byrbryd a gallant ofyn am ragor os ydynt yn dymuno.

Mae'r plant wedi ymlacio ac yn teimlo'n gyfforddus iawn yn eu hamgylchedd oherwydd ei fod yn gyfarwydd iddynt. Maent wedi ymgartrefu ac yn hapus yn y clwb a dywedodd y plant y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau ei fynychu. Roedd y sylwadau o holiaduron y plant, a gwblhawyd fel rhan o waith hunanwerthuso'r lleoliad, yn gadarnhaol. Maent yn dangos bod y plant yn hoffi'r gweithgareddau a'r cyfleoedd chwarae sy'n cael eu darparu. Mae'r plant yn mwynhau bod yng nghwmni eu ffrindiau ac yn datblygu cydberthnasau cadarnhaol â'r staff.

Mae plant o bob ystod oedran yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd mewn ffordd barchus a charedig. Maent yn rhyngweithio'n dda ac, ar adegau, roedd pob un ohonynt yn cymryd rhan mewn gemau gyda'i gilydd. Er enghraifft, gwnaeth y plant i gyd chwarae gêm o guddio. Roedd llawer o wenu a chwerthin wrth iddynt chwilio am ei gilydd neu wrth iddynt gymryd sbel i'w canfod. Mae'r plant yn barchus ac yn rhannu lle ac adnoddau'n dda. Maent yn dangos cwrteisi yn briodol heb gael eu hatgoffa i wneud hynny gan y staff.

Caiff y plant eu hysbrydoli i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n eu galluogi i ddilyn eu diddordebau. Maent yn canolbwyntio am gyfnodau o amser sy’n briodol i'w hoedran a'u cyfnodau datblygu. Gwnaethon nhw rannu'r hyn yr oeddent yn ei wneud a'r hyn yr oeddent yn ei fwynhau gyda ni pan ofynnwyd iddynt, gan ddangos eu bod yn hapus ac yn dilyn eu diddordebau. Er enghraifft, dywedodd grŵp o blant eu bod yn mwynhau’r gweithgareddau paentio a chrefft yn enwedig.

Mae gan y plant gyfleoedd i ddatblygu ystod o sgiliau, gan gynnwys annibyniaeth. Maent yn awyddus i gwblhau tasgau a helpu gyda'r trefniadau arferol. Er enghraifft, pan oedd y plant yn dod i mewn i gael byrbryd, roeddent yn awyddus i helpu i baratoi ar gyfer cael byrbryd a chwblhau tasgau megis arllwys y diodydd neu osod yr adnoddau yr oeddent eu heisiau.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae’r staff yn deall eu rôl wrth gadw’r plant yn ddiogel. Mae eu hyfforddiant ar ddiogelu yn gyfredol ac maent yn deall y weithdrefn i’w dilyn os oes ganddynt bryderon am blentyn. Mae'r staff yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ac yn sicrhau eu bod yn darparu gofal a chymorth addas i'r plant. Mae ymarferion tân yn cael eu hymarfer fel bod y plant a'r staff yn ymwybodol o'r weithdrefn i’w dilyn os bydd angen iddynt adael yr adeilad. Fodd bynnag, byddai’n fuddiol i’r plant pe baent yn cael cyfleoedd i gyflawni ymarferion tân yn amlach, yn hytrach na dibynnu ar rai sy’n cael eu hymarfer yn yr ysgol.

Yn gyffredinol, mae'r staff yn hyrwyddo ffordd iach o fyw. Maent yn glanhau byrddau cyn eu defnyddio ar gyfer byrbrydau ac yn annog y plant i ymolchi eu dwylo drwy gydol y sesiwn. Mae'r staff yn darparu dewisiadau bwyd iach ar gyfer byrbrydau megis tost a ffrwythau. Fodd bynnag, maent yn darparu sgwash i blant yn hytrach na dŵr neu laeth a argymhellir. Mae'r staff yn sicrhau bod diodydd ar gael i’r plant, fel eu bod wedi’u hydradu’n barhaus. Mae'r staff yn rhoi cyfleoedd bob dydd i'r plant gael mynd yn yr awyr agored er mwyn iddynt allu bod yn egnïol a chael awyr iach.

Mae'r staff yn fodelau rôl da i'r plant. Maent yn gwrtais ac yn siarad â'r plant mewn ffordd gynnes a chyfeillgar. Mae'r staff yn rhyngweithio'n briodol gyda'r plant ac yn gwybod pryd mae'n briodol ymyrryd neu gyfarwyddo chwarae'r plant. Er enghraifft, roedd plentyn yn dangos arwyddion ei fod yn colli ychydig o ddiddordeb yn y gweithgareddau a oedd ar gael, felly cychwynnodd aelod o staff gêm bêl, y gwnaeth y plentyn ei mwynhau. Mae'r staff yn rheoli ymddygiad yn dda ac yn gyson, gan ddefnyddio strategaethau priodol ar gyfer oedrannau a chyfnodau datblygu'r plant. Er enghraifft, defnyddiwyd dulliau tynnu sylw yn achos un o’r plant er mwyn atal ymddygiad annymunol rhag gwaethygu.

Mae'r staff yn cynnwys y plant yn rheolaidd wrth drefnu a chynllunio gweithgareddau. Defnyddir mapiau meddwl i ddarganfod yr hyn y mae'r plant yn ei fwynhau a beth yw eu diddordebau. Yn ddiweddar, gwnaeth y staff ganiatáu i'r plant wneud rhestr o ddymuniadau o'r eitemau yr hoffent eu cael ar gyfer y clwb. Wedyn, maent yn prynu rhai ohonynt, megis Lego a gêm tenis bwrdd newydd. Mae'r staff yn rhoi rhywfaint o ddewis rhydd i'r plant o'r gweithgareddau y maent am chwarae â nhw. Maent yn cylchdroi rhai sydd ar gael yn rhydd i helpu'r plant i barhau i gael eu hysbrydoli a chynnal eu diddordeb wrth iddynt gael mynediad at gyfleoedd gwahanol.

## Yr Amgylchedd Da

Yn gyffredinol, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn saff a diogel. Mae gwiriadau ac asesiadau risg rheolaidd yn cael eu cwblhau, ac mae’r rhan fwyaf o beryglon yn cael eu dileu neu eu rheoli'n effeithiol. Fodd bynnag, wrth inni gyrraedd, roeddem yn gallu mynd i mewn i'r ardaloedd awyr agored heb gael ein gwirio. Ers yr arolygiad, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi sicrhau bod y gatiau allanol yn cael eu cloi a bod pob ymwelwr yn cael ei awdurdodi. Mae cofnod o ymwelwyr yn cael ei gwblhau fel y gellir cyfeirio ato os oes angen.

Mae'r amgylchedd yn lân ac wedi’i gynnal a'i gadw'n dda. Oherwydd bod yr ardaloedd a ddefnyddir yn rhan o'r ysgol, maent yn addas i blant ac ar gyfer oedrannau'r plant sy'n mynychu. Mae'r prif ardaloedd mewnol a ddefnyddir yn cynnwys ystafell ddosbarth a neuadd. Mae hyn yn cynnig ystod o gyfleoedd i'r plant oherwydd bod yr ystafell ddosbarth yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau mwy hamddenol megis crefft, byrbrydau, a gemau pen bwrdd. Mae'r neuadd yn rhoi lle i'r plant fod yn fwy egnïol, gan gymryd rhan mewn gweithgareddau megis gemau pêl a gymnasteg, gan ddefnyddio'r matiau meddal sydd ar gael. Defnyddir yr ardal awyr agored yn dda ac mae'n cynnwys amrywiaeth o ardaloedd i'r plant eu defnyddio. Mae ardal gysgodol, ardal ar gyfer chwaraeon ac ardal fwy naturiol gyda choed a bryn lle gall y plant gymryd risgiau pwyllog drwy ddringo ac archwilio.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr adnoddau a’r cyfleusterau o ansawdd da. Mae mannau storio yn gyfyngedig ond mae'r staff yn sicrhau bod adnoddau'n hygyrch, yn cael eu cadw'n lân, ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae cyfleusterau priodol, gan gynnwys toiledau, ac mae'r dodrefn o faint addas i sicrhau bod y plant yn gyfforddus ac yn gallu bod yn annibynnol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Da**

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth dda o'r gwasanaeth a'r gofal y maent yn eu cynnig. Maent yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u gweithredu mewn modd effeithiol. Mae'r datganiad o ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar rieni er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniad gwybodus a phenderfynu ai dyna'r gofal cywir iddyn nhw a'u plentyn. Cwblheir yr holl waith papur yn foddhaol, gan gynnwys cofnodion y plant, ac mae wedi'i drefnu'n dda fel ei fod yn hawdd dod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall pwysigrwydd gwerthuso'r gofal y maent yn ei ddarparu a defnyddio'r wybodaeth hon i wneud gwelliannau. Maent yn casglu barn y rhieni a'r plant yn effeithiol ac yn ei defnyddio i gynllunio newidiadau cadarnhaol. Er enghraifft, defnyddio'r ardaloedd awyr agored mewn modd mwy effeithiol a phrynu mwy o adnoddau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r staff yn dda. Mae ganddynt raglen recriwtio gadarn ar waith sy'n sicrhau bod y staff yn addas i ofalu am y plant. Mae cynllun wrth gefn ar waith ar gyfer cyflenwi absenoldebau staff er mwyn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n briodol. Mae ffeiliau'r staff yn gyflawn, ac maent yn dangos bod yr holl wybodaeth ofynnol yn cael ei chasglu. Mae'r staff yn mynychu hyfforddiant sy'n eu cefnogi i ddarparu gofal effeithiol, gan gynnwys diogelu a chymorth cyntaf. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod nhw a'r staff yn cael cyfleoedd i rannu gwybodaeth drwy gyfarfodydd ac arfarniadau rheolaidd.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gydberthynas da â'r rhieni. Maent yn siarad â nhw ar ddiwedd sesiynau os oes angen er mwyn rhannu gwybodaeth. Gwahoddir y rhieni i fod ar y pwyllgor er mwyn rhoi cyfle iddynt gymryd rhan yn y modd y caiff y lleoliad ei gynnal. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gysylltiadau agos â'r ysgol, sy'n fuddiol i'r plant ac i'r gofal y maent yn ei dderbyn. Mae'n ei gwneud yn bosibl rhannu arferion da, yr amgylchedd ac adnoddau.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Dylid ystyried cynnal mwy o ymarferion tân yn hytrach na dibynnu ar y rheini sy'n cael eu cwblhau yn yr ysgol.

A2. Dylid sicrhau mai dim ond llaeth neu ddŵr sy'n cael eu cynnig i'r plant i’w yfed.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achos o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Disgwyliwn i'r darparwr  gymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy’n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arferion ac arloesi sy’n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel, ac maent yn gallu dangos eu bod yn gwneud cyfraniad cryf i wella lles plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau ac sydd heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella’n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i’w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni gofynion sylfaenol, ond mae angen gwelliannau i hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau, a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n cael effaith negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 23/06/2022'